

Rhoi Cynaliadwyedd ar flaen y gad

Er mwyn sicrhau cynhyrchu cynaliadwy, rhaid i ddiwydiant garddwriaeth Cymru barhau i weithredu atebion arloesol i helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng amgylcheddol presennol. Dyma sut mae Tyfu Cymru yn cyd-fynd â Nodau Datblygu Cynaliadwy'r FAO a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).




5 Maes Ffocws Allweddol i Gyflawni'r Nodau Datblygu Cynaliadwy

Mae'r FAO wedi nodi pum maes sy'n allweddol i gyflawni'r Nodau Datblygu Cynaliadwy:

1. Cynyddu cynhyrchiant, cyflogaeth ac ychwanegu gwerth mewn systemau bwyd
2. Diogelu a gwella adnoddau dynol
3. Gwella bywoliaeth a meithrin twf economaidd cynhwysol
4. Gwella gwydnwch pobl, cymunedau ac ecosystemau
5. Addasu llywodraethu i'r heriau newydd (FOA, 2018)


Ein 12 Thema Allweddol

Y meysydd allweddol, a nodwyd gan FAO a Llywodraeth Cymru, yw'r sylfaen ar gyfer llwyddiant prosiect Tyfu Cymru ac fe'u gweithredir drwy ein 12 thema allweddol.



Hyfforddiant a Chefnogaeth

Wrth ystyried cynaliadwyedd o safbwynt amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol, gellid ystyried bod **100%** o'n hyfforddiant yn cael effaith gadarnhaol ar y meysydd hyn. Yn ystod 2021, roedd gan **41%** o gyfanswm ein horiau hyfforddi ffocws cryf ar gynaliadwyedd amgylcheddol.



Gweithredoedd y diwydiant

Mae gan y diwydiant garddwriaeth ran bwysig i'w chwarae wrth fynd i'r afael â newid hinsawdd. Mae llawer o dyfwyr eisoes yn arwain y ffordd ar gynaliadwyedd drwy gynhyrchu heb fawn, lleihau eu defnydd o ddŵr y prif gyflenwad, archwilio a dal a storio carbon, lleihau'r defnydd o blastigau untro, gwella iechyd y pridd, a lleihau'r defnydd o agrocemegau; sy'n annog bioamrywiaeth ac yn gwella cynefinoedd naturiol.

Ein hymrwymiadau



Further topics



Mae Tyfu Cymru yn cefnogi gwydnwch economaidd, ac yn ôl adroddiad annibynnol, mae'r cymorth hwn wedi **arwain at fuddsoddiad o £2.25 am bob £1 sy'n cael ei gwario**. At hynny, mae cyngor a chymorth technegol yn ysgogi'r defnydd o arfer gorau fel RhPChI. Mae'r rhaglen yn cefnogi busnesau i gynyddu cynhyrchiant drwy leihau colledion, drwy weithredu dull integredig o reoli plâu a chlefydau, a thrwy wneud hynny, diogelu a gwella bioamrywiaeth, ansawdd dŵr ac iechyd y pridd – bydd hyn yn chwarae rhan allweddol wrth fynd i'r afael â newid hinsawdd a chyflawni targedau carbon niwtral Llywodraeth Cymru erbyn 2050.

Mae manylion ein gweminarau, adnoddau a chanllawiau diweddaraf i'w gweld ar ein gwefan:

www.tyfucymru.co.uk